COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED BRO CERNYW
7:30YH 23AIN TACHWEDD 2022
CYNHALIWYD YM MHANDY TUDUR

1 CROESO AC YMDDIHEURIADAU

1.1 Croesawyd bawb gan Einir Williams (EW) – Is-Gadeirydd yn absennoldeb Clwyd Roberts

1.2 Presennol: Ann Vaughan (AV), Myrddin Davies (MGD), Diane Roberts (DR), Jane Roberts (JR), Sara Davies (SD), Mark Davies (MD) Gwydion Jones (GJ)

1.3 Ymddiheuriadau: Austin Roberts (AR) & Clwyd Roberts (CR)

Croesawodd EW Sara Thomas fel cynghorydd newydd i'r cyfarfod.

Cafwyd munud o dawelwch i gofio am Emlyn Williams fu farw yn sydyn. Dywedodd EW y bydd colled mawr iawn ar ei ôl yn dilyn blynyddoedd maith o wasanaeth fel cynghorydd i'r Cyngor, i'r gymuned yn ehanach ac fel ffrind.

2 DATGANIAD DIDDORDEB

Dim datganiad.

3 COFNODION I'W GWIRO 26AIN HYDREF 2022

Cynnigwyd yn gywir gan DR ac eilwyd gan MD.

4 MATERION YN CODI

Adroddodd AV fod coed gan Woodland Trust wedi cyraedd erbyn hyn. AV heb gael ateb gan yr ysgol. MD, JR, EW, AV & DR yn gwirfoddoli eu plannu 30ain Tachwedd am 9yb.

Roedd REW wedi son yn y cyfarfod diwethaf fod angen paentio'r ciosg ffôn, wedi cael gafael ar Alan Williams sydd am roi pris ar gyfer y gwanwyn. Hefyd wedi gofyn am bris ar gyfer ail baentio'r safle bws yn Llangernyw, eto cytunwyd i adael hwn tan y gwanwyn. AV i ofalu 'nes at yr amser. MD yn cynnig paentio wal gefn y safle bws wythnos nesaf i'w dacluso dros dro, pawb yn gytun.

Cododd EW fod angen ychwanegu sylwadau aelodau'r cyhoedd siaradodd yn y cyfarfod 25ain Mai 2022. Enlli Vaughan wedi eu hychwanegu i'r cofnodion ac am ofalu eu gyrru ymlaen i Arfon Parry.

5 CEISIADAU CYNLLUNIO

5.1 0/50145 Dim sylw, cefnogi'r cais.

5.2 0/50170 DR yn dweud fod llwybrau yn mynd trwy'r safle, Cyngor Sir yn nodi fod angen gofalu eu bod yn glir. Sylwad y dylsai'r broses gynllunio dylsai cais wedi ei dilyn cyn i'r gwaith gychwyn ond ddim gwrthwynebiad. MGD yn codi fod y cais ar gyfer newid llety preswyl i lety hunan ddarpar felly'n bodoli'n barod. Cefnogi'r cais fel arall.

6 MATERION CYNGOR

6.1 EW wedi dod o hyd i wybodaeth am Gyngor Sir Fôn wedi ariannu dosbarthydd bagiau baw cŵn. Cododd DR fod AR wedi gofalu fod y bin baw ci yng Nglan Collen wedi ei newid yn sydyn iawn. EW yn cynnig treialu'r biniau mewn un pentref. Gofynnodd MGD os oedd angen rhoi rhywbeth mwy gweledol os yw'r biniau yn cael eu gosod. MGD yn cynnig arwyddion côd ymddygiad ar gyfer perchnogion i godi'r baw a hefyd eu cadw ar dennyn yn enwedig o gwmpas anifeiliaid fferm. Problem wedi bod yn ddiweddar yn yr ardal efo cŵn

yn poeni defaid a gwartheg. MGD yn cynnig gosod arwydd Côd Cefn Gwlad ar yr hysbysfwrdd rhwng y Stag a mynedfa'r Eglwys. AV yn cofio fod arwydd i fod yn nodi dim cŵn yn y fynwent. EW am chwilio am 3 pris ar gyfer y math yma o finiau ac am holi PR Signs yn Ninbych ar gyfer arwyddion. I'w drafod eto mis nesaf i drefnu ymgyrch ynglyn â baw cŵn.

6.2 DR wedi mynychu cyfarfod Un Llais ar Zoom yn ddiweddar efo Graham Bowse, Prif Weithredwr Sir Dinbych. *Respect, unity, pride* ac *integrity* oedd ei brif amcanion. Pwysigrwydd cydweithio efo'r gymuned. Cynghorau Cymuned yn *under-utilised*. Diffyg staff cyngor, swyddfeydd gwag a fod angen cau swyddfeydd bach. Meddwl taw 2024 fydd y flwyddyn anoddaf ar gyfer cael balans ar y cyfrifon. DR yn dweud fod rhan fwyaf o beth ddywedodd Graham yn adlewyrchu beth ddywedodd prif weithredwr Conwy yng nghyfarfod Un Llais ddechrau'r flwyddyn.
Yn gyffredinol cael rhybydd fod angen i'r cynllun hyfforddi ar y wefan, dim parcio rhad.
Diolchwyd i DR am fynychu'r cyfarfod ac am ei hadroddiad.
Penodi cynghorydd ychwanegol i fynychu cyrsiau Un Llais yn y flwyddyn newydd.
Trafodaeth eto fod angen i bob cynghorydd fynychu cwrs am y côd ymddygiad.
Gofynnodd EW os yw Un Llais wedi paratoi rhestr o gyrsiau, DR yn adrodd fod y cyrisau yn newid bob chwarter. Rhoi hwn ar agenda mis nesaf i'w drafod ymhellach.

6.3 Angen aelod ychwanegol o'r cyngor ar gyfer y pwyllgor mynwentydd a swyddog claddedigaethau newydd yn dilyn marwolaeth Emlyn Williams. EW wedi mynd a'r dogfennau oedd gan Emlyn i CR, i'w drafod ymhellach gan yr is-bwyllgor. DR yn cynnig rhoi neges ar y wefan i roi CR fel cyswllt dros dro.

6.4 Sedd wag llywodraethwyr Bro Cernyw, MGD wedi cynnig yn ystod y cyfarfod diwethaf ond rhaid i'r sedd gael ei lenwi gan aelod o'r Cyngor Cymuned sydd ddim ar y pwyllgor yn barod i gynyrchioli buddianau'r gymuned. I'w drafod yn ystod y cyfarfod nesaf.

6.5 MGD yn atgoffa o drafodaeth gafwyd yng nghyfarfod Medi am y tir ger gae pêl-droed yr ysgol. MGD wedi holi Sioned Green ynglyn a'r perchnogaeth a'i ddefnydd. Sioned Green wedi dod yn ôl ato i ddweud taw cyfrifoldeb y Cyngor Sir yw'r llain tir yma ond does dim yn cael ei wneud efo'r safle. JR yn nodi fod y mater wedi ei godi ym mhwyllgor y neuadd, pwyllgor pêl-droed yn bwriadu cymeryd y safle drosodd er bydd pawb yn y gymuned. MGD yn codi fod angen i AR fod yn rhan o'r drafodaeth ynghyd ac aelodau'r cymdeithasau eraill, i'w drafod yn ystod y cyfarfod nesaf. Gofyn wrth AR hwyluso cyfarfod i drafod y mater rhwng yr ysgol/llywodraethwyr, pwyllgor pêl droed â'r cyngor cymuned.

6.6 Dyddiadau 2023 – cytunwyd i gadw nos Fercher ola'r mis. EW yn cynnig penodi'r dyddiadau a'u gosod ar y wefan a gadal i CR & GJ wybod er mwyn bwcio'r canolfanau.

6.7 Penderfynwyd gadael y mater tan ddechrau'r flwyddyn. Dim angen byw yn Gwytherin er mwyn cynyrchioli ond byw yn y ward.

6.8 EW wedi gyrru swydd ddisgrifiad clerc ymlaen i'r Cynghorwyr cyn y cyfarfod. Diolchwyd i EW & MGD am ei baratoi. EW & MGD wedi trafod y mater a fod angen hysbysebu'r swydd yn eang megis lleol.cymru.
Pawb yn hapus efo'r swydd ddisgrifiad. Dyddiad cau ganol Ionawr. EW & MGD i ofalu hysbysebu. I'w drafod ddiwedd Ionawr.

7 MATERION ARIANNOL

7.1 Paratoi'r presept yn ystod y cyfarfod nesaf ar gyfer mis Ionawr. Angen diwygio rheolau ym mis Ionawr.

8 GOHEBIAETH

8.1 Derbynwyd ebost gan Elen Edwards 16eg Tachwedd yn canmol y gwaith tacluso ar yr arhosfan bws yn Pentre, Llangernyw. Gofyn am ganiatad iddi hi a Marged baentio'r arhosfan, pawb yn gytun. EW am adael i Elen Edwards wybod ac iddi yrru anfoneb am y paent i'r Cyngor Cymuned. AV hefyd yn adrodd fod pobl leol wedi canmol y gwaith hefyd.

9 ADRODDIAD CYNGHORYDD SIR

"Annwyl gyfeillion, ymddiheuraf na fedrai fod hefo chi henoma.

Gai yn gyntaf ymestyn fy nghydymdeimlad i chi fel pwyllgor. Rydych wedi colli aelod selog a gweithgar. Roedd Emlyn yn un o hoelion wyth ei gymuned a mi fydd bwlch mawr ar ei ôl.

Materion Cyngor

1. Mae'r cyngor wedi apwyntio prif weithredwr newydd, sef Mr Rhun ap Gareth Cymro Cymraeg o Gaernarfon a chyn-gyfarwyddwr llywodraethol a phennaeth adran gyfreithiol y cyngor.
2. Bont Pandy Tudur:- mae'r cerrig ar dop y bont yn rhydd, mae peirianydd o adran pontydd y sir wedi'w archwilio a does dim niwed difrifol ac does dim rhaid cau y bont. Mae'r bont wedi'w rhoi ar rhestr gwaith y sir.
3. Bin baw ci Glan Collen wedi'w drwsio ac yn ôl yn ei le.
4. Arwyddion electroneg:- mae adran brif ffyrdd y cyngor yn bwrw ymlaen hefo'r gwaith ymgynghorol a gobeithio y byddent yn cael eu gosod rhywbryd yn 2023.
5. Hwb cynnes, cynllun gan y cyngor sy'n hysbysu manau o amgylch y sir sy'n agored i'r cyhoedd lle fedrant gadw'n gynnes am ychydig oriau. Mae Eglwys Llangernyw yn agored i bawb ar ddydd Mawrth a basent yn medru ymestyn eu horiau os y buasai modd ei gyllido (wrth gwrs tydi'r cyngor sir ddim yn medru cyfranu). Felly, oes modd i'r cyngor cymuned gwneud cyfraniad? Rhywbeth i chi ystyru a thrafod!
6. Os nad ydych wedi gwneud hyn yn barod, yna mae'n ofynol i chwi fel cyngor cymuned hysbysu'r cyngor sir bod yna sedd i'w lenwi yn dilyn marwolaeth Emlyn. Gallwch wneud hyn drwy gysylltu a Sian Branwen Williams Pennaeth yr adran gwasanaethau democrataidd.
7. Llwybr 50 mi fydd adolygiad o'r llwybr yn cael ei wneud wythnos nesaf gyda'r bwriad o ail agor y llwybr erbyn diwedd mis nesa.
8. Scafaldiau wedi i'w codi o amgylch y Stag iard er mwyn cychwyn ar y gwaith o wneud yr adeilad yn saff.

Cofion Austin"

Diolchwyd am adroddiad manwl AR yn ei absennoldeb ac am ei waith.

Ategodd EW fod Gwenda Cooper wedi gyrru llythyr at y Cyngor Cymuned yn gofyn am gyfraniad ariannol tuag at yr hwb cynnes yn yr Eglwys parthed 5 uchod. Pawb yn gytun i ymateb yn cynnig fod cais yn cael ei wneud y Cronfa Bro Cernyw.

EW am ebostio Sian Branwen Williams i hysbysu am farwolaeth Emlyn a bydd y Cyngor yn gadael y mater tan mis Ionawr.

10 BILIAU

10.1 Cyngor Sir – Etholiadau yn Gwytherin, Pandy Tudur a Llangernyw - £405, cytunwyd i dalu.

10.2 Kevin Roberts – gwaith safle bws - £1,704.00, cytunwyd i dalu.

10.3 Kevin Roberts – gwaith ym mynwent Llangernyw - £945.60, cytunwyd i dalu.

10.4 Enlli – Medi £170.81, Hydref £174.86, cytunwyd i dalu.

11 MATERION LLEOL

AV wedi derbyn prisiau gan Kevin Roberts ar gyfer gwaith ym mynwent Gwytherin (i gynnwys gwaith ar gerrig beddi yn dilyn pwyllgor mynwentydd gofnodwyd yn ddiweddar) - £2,120. Gofyn am bris torri'r gwrychoedd a'r gwaith cerrig beddi arwahan ym mynwent Seilo.

Wedi cael pris hefyd am yr un gwaith (ond ddim sythu cerrig beddi) gan Dei Evans £1,200 am yr eglwys a'r capel £200 – cyfanswm £1,400. Buasai'n gallu gwneud y gwaith ym mis Ionawr.

Cododd DR fod y fantolen ariannol yn nodi £500 ar gyfer mynwentydd. Nododd fod arian heb ei wario yn y fantolen ar gyfer etholiad o fewn y presept, trafodwyd fod angen gwneud y gwaith hanfodol yn y mynwentydd. Pawb yn gytun i roi caniatad i wario'r arian i wneud gwaith hanfodol yn y mynwentydd.

Adroddodd fod Kevin Roberts wedi sôn fod Emyr Jones am lwybr rhif 17, wedi cael cais i osod camfa rhwng Tŷ Capel Ainon a Glanrafon.

Carreg fedd wedi disgyn ym mynwent Gwytherin, wedi cysylltu efo Geraint Roberts, Cofgolofnau'r Dyffryn am bris i godi'r garreg.

EW wedi gyrru ebost yn gynharach i ddweud fod y Cyngor Cymuned wedi derbyn £500 gan y Cyngor Sir tuag at y toiledau. Adroddodd AV taw Menter Bro Cernyw sydd i fod i dderbyn yr arian yma. MGD & DR yn nodi fod yr arian wedi dod i mewn drwy BACS felly pawb yn gytun i awdurdodi siec yn cael ei roi i Menter Bro Cernyw am £500 oherwydd camgymeriad y Cyngor Sir.

DR wedi cael cwyn fod dŵr yn dal i redeg o'r cae ger Tyn Ddol.

Heddlu fod i ddod a fan o amgylch ardaloedd gwledig i gael sgwrs, neb wedi gweld heddlu. DR am yrru ebost i fynd ar ôl y mater.

12 CYFARFOD NESAF

14eg Rhagfyr 2022 yn Llangernyw

Cyfarfod yn dod i ben 9:50pm

Cymerwyd y cofnodion gan Enlli Vaughan